Ebrill 1af 2018

Diolch i Audrey Lewis am ein croesawu y bore 'ma, Sul y Pasg. Allan James fydd wrth y llyw heddiw gyda Geraint Wyn Davies yn llywyddu ac Eleri Huws yn cyfeilio.

Ebrill 5ed 7.30 yn y Tabernacl

Noson Gerddorol gyda'r Teulu Lovell-Jones

Y Suliau nesaf . . . . .

Ebrill 8fed - y Parchg Aled Edwards gyda Nia Williams; Helen Prosser yn croesawu, Bethan yn cyfeilio.

Ebrill 15fed - Oedfa i'r Teulu; Siân yn cyfeilio.

Ebrill 22ain - Keith Rowlands gyda Helen Prosser; Bethan yn cyfeilio a Jane Eryl a Geraint yn croesawu.

Dathliadau 150 y Tabernacl
I ddathlu 150 mlynedd ers codi Capel y Tabernacl gobeithiwn lwyfannu sioe yn olrhain hanes yr achos. Er bod dros ddwy flynedd yn weddill cyn cynnal y dathliadau bydd gofyn dechrau ar y paratoadau cychwynnol am y sioe yn fuan.
Dathlu'r 150: Estynnir gwahoddiad i unrhyw un sydd â diddordeb i gynorthwyo llunio sgript, cyfansoddi caneuon ynghyd â threfnu i lwyfannu'r perfformiad i gysylltu gydag un o aelodau'r Bwrdd cyn 27 Mawrth.

Madagasgar 1818-2018
Fel rhan o Gyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a gynhelir yn Aberaeron rhwng y 6ed a'r 10fed o Fehefin bydd yr Undeb yn dathlu 200 mlwyddiant glaniad y cenhadon o Neuadd-lwyd ym Madagasgar ym 1818. Ar nos Wener 8fed o Fehefin bydd sioe i ddathlu hanes y cenhadon cynnar yn cael ei pherfformio ar fferm Pen-rhiw – sef cartref David Jones, un o'r ddau genhadwr cyntaf – a bydd Oedfa Ddathlu ar y pnawn Sadwrn a chyngerdd i gyflwyno doniau Cymru a Madagasgar ar y nos Sadwrn. Os oes unrhyw un awydd archebu tocynnau ar gyfer y sioe, a seddau cadw ar y bws wennol o Aberaeron i'r perfformiad cysylltwch gyda Gwilym Huws (gehpengwern@yahoo.co.uk / (01443 225205) am ffurflen archebu.